Active citizenship for Wales and the world

CEWC–CYMRU NEWSLETTER SUMMER 08

CELEBRATING RIGHTS FOR CHILDREN…

CEWC-Cymru is pleased to announce the publication of a full-colour, bilingual poster summarising the United Nations Convention on the Rights of the Child. This A2 sized poster can be displayed on classroom or office walls, or can be folded and kept as a useful reference.

The Convention sets out the political, economic and other rights which all countries should guarantee to people under the age of 18. It became part of international law in 1989 and has been ratified by all UN member states except Somalia and the USA.

A sample copy of the new poster has been sent to all secondary schools and colleges in Wales. If you would like to order more, please e-mail jesslewis@wcia.org.uk. The cost (excluding postage) is 25p per copy, with a discount rate of £6 for 30 copies.

…AND FOR ALL

2008 is the 60th anniversary of the Universal Declaration of Human Rights, the first international agreement on the rights shared by all people. Inside this newsletter you will find a poster with more information on the Declaration.

CEWC-Cymru can provide bilingual booklets and Welsh-language posters containing the full text of the Declaration. We will also be focusing on human rights at our Model United Nations conferences during the 2008-09 school year.

To order our publications, or to make sure you are invited to our Model UN events, e-mail jesslewis@wcia.org.uk.

BOOK A WORKSHOP

We also provide free classroom workshops on children's rights and human rights for member schools and colleges: visit www.cewc-cymru.org.uk/membership to find out more.

www.cewc-cymru.org.uk

STAFFING UPDATES

Tamara Gervasoni, who was responsible for co-ordinating CEWC-Cymru's events, departed for New Zealand in May. Although only with us for six months, her enthusiasm and infectious smile will be remembered by all at the Temple of Peace. We thank Tamara for her valuable contributions.

We welcome **Ona Flindall**, who replaces Tamara as Programme Co-ordinator. A graduate student of International Politics from Aberystwyth University, Ona has previously worked for the United Nations Association of Norway. A keen interest in internationalism and the potential of young people led her to take up a teaching post in China in 2004. Ona believes that by increasing young peoples' awareness of the world and its peoples we can foster a future of respect and unity.

Jess Lewis joined CEWC-Cymru in May 2008 in the role of Office Assistant. As well as being a fluent Welsh speaker, Jess studied German, Spanish and French at A level before working in the Human Resources department of Barnardo's Cymru. She has recently returned from travelling across Europe, Japan and America and considers this experience to be the pinnacle of her life so far.

GET YOUR STUDENTS DEBATING THIS AUTUMN

Registration is now open for the **2008 Wales Schools Debating Championships**, our annual opportunity for students to debate important national and global issues in a competitive setting. Eight regional rounds will be held in October, followed by the quarter-finals, semi-finals and final in November.

All secondary schools and further education colleges are welcome to participate – and if you are new to debating, we encourage you to take part in one of our **Debate Training Days**, being held in Cardiff on 22 September and on 26 September in Rhyl.

Our debating tournament was established in 1990, when the first champions were Gowerton Comprehensive School, Swansea. Last year's winners were Ellen Robertson and Eleanor Francis of Pencoed School, Bridgend. For full information, and to download a registration form for this year's activities, visit www.cewc-cymru.org.uk/debating.

CEWC-Cymru is also responsible for taking Wales's national team to the **World Schools Debating Championships**. Everyone who enters our competition therefore has the chance of travelling to Athens in February 2009 to represent their nation.

RECENT EVENTS

Pictures from two of our Summer term events: the One World Conference in Nantymoel, Bridgend; and the Model National Assembly for Wales, held at the Assembly's educational centre in Cardiff Bay.

GLOBAL CITIZENSHIP IN THE 2008 CURRICULUM

Wales's new national curriculum comes into use on 1 August 2008, and it is full of enhanced opportunities to deliver global citizenship education. Here, we provide colleagues with a run-down of the main changes as they relate to CEWC-Cymru's work. We will develop a more detailed curriculum map in the coming months.

- Opportunities for **Education for Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC)** are now present through subject specifications. For example:
  - *Geography* specifically requires students to consider the responsibilities of a global citizen
  - *Modern Foreign Languages* includes an expanded element of Intercultural Understanding

  Further assistance with ESDGC will be provided by the Welsh Assembly Government in its forthcoming guidance document, *A Common Understanding of ESDGC in Wales*.

- The ten 'aspects' of **Personal and Social Education (PSE)** have been reduced to five in the new PSE Framework. Two of these are:
  - *Active Citizenship*, which draws together the old 'Community aspect' and attitudes/values relating to diversity and political engagement
  - *Sustainable Development & Global Citizenship*, which gives PSE a clearer global remit, covering areas such as equity, globalisation and international co-operation

- The new **Skills Framework** ensures that two skills relevant to our work now underpin the whole of the curriculum:
  - *Thinking Skills*. Activities such as our Philosophy for Children work and Model UN conferences already support students' critical and creative thinking. The Skills Framework lends extra weight to important areas such as asking questions, generating new ideas and valuing errors.
  - *Communication Skills*. Our classroom workshops and debating activities fit closely with the development of oracy skills.

- **Wales, Europe and the World** is now a cross-curricular theme to be considered by all learners aged 14-19 – not just those taking the Welsh Baccalaureate qualification.

- The **Foundation Phase** for 3 to 7 year olds offers greater flexibility in how educators encourage Personal and Social Development and the appreciation of cultural diversity.

If you are unsure how to approach some of these requirements, please contact us at cewc@wcia.org.uk. We can provide in-service training for single schools or local clusters, as well as arranging classroom workshops to demonstrate teaching methods such as Philosophy for Children.

CEWC-CYMRU, TEMPLE OF PEACE, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3AP
TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk

Reg. charity no. 1048759

Design elfen.co.uk

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

CEWC–CYMRU CYLCHLYTHYR HAF 08

CEWC CYMRU

DATHLU HAWLIAU I BLANT…

Mae CEWC-Cymru yn falch i ddweud bod poster dwyieithog, lliw llawn sy'n crynhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn newydd ei gyhoeddi. Mae'r poster maint A2 hwn yn addas i'w arddangos ar wal y swyddfa neu'r ystafell ddosbarth, neu fe allwch ei blygu a'i gadw er mwyn cyfeirio ato'n rhwydd.

Mae'r Confensiwn yn nodi'r hawliau gwleidyddol, economaidd ac eraill y dylai pob gwlad eu gwarantu i bobl o dan 18 oed. Daeth yn rhan o gyfraith ryngwladol ym 1989 a chafodd ei gadarnhau gan holl aelod wladwriaethau'r CU ar wahân i Somalia ac UDA.

Anfonwyd copi o'r poster newydd i bob ysgol uwchradd a choleg yng Nghymru. Os ydych am archebu rhagor, anfonwch neges e-bost os gwelwch yn dda at jesslewis@wcia.org.uk. Y gost (cyn cost postio) yw 25c yr un, gyda chyfradd ostyngol o £6 am 30 copi.

…AC I BAWB

2008 yw 60 mlwyddiant y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, sef y cytundeb rhyngwladol cyntaf ar yr hawliau sy'n gyffredin i bawb. Yn y cylchlythyr hwn fe welwch boster sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y Datganiad.

Gall CEWC-Cymru ddarparu llyfrynnau dwyieithog a phosteri Cymraeg sy'n cynnwys testun y datganiad yn ei gyfanrwydd. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar hawliau dynol yn ein cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig yn ystod y flwyddyn ysgol 2008-09.

I archebu ein cyhoeddiadau, neu i sicrhau y cewch wahoddiad i'r digwyddiadau Model y CU, e-bostiwch jesslewis@wcia.org.uk.

ARCHEBWCH WEITHDY

Rydym hefyd yn cynnig gweithdai ystafell-ddosbarth ar hawliau plant a hawliau dynol yn rhad ac am ddim i ysgolion a cholegau sy'n aelodau o CEWC-Cymru: ewch i www.cewc-cymru.org.uk/aelodaeth i gael gwybod rhagor.

www.cewc-cymru.org.uk

NEWIDIADAU STAFFIO

Ym mis Mai ymadawodd **Tamara Gervasoni**, a oedd yn gyfrifol am gydlynu digwyddiadau CEWC-Cymru, ar ei thaith i Seland Newydd. Er mai dim ond am chwe mis y bu hi gyda ni, byddwn ni oll yma yn y Deml Heddwch yn cofio am ei brwdfrydedd a'i gwên afieithus. Diolchwn i Tamara am ei chyfraniad gwerthfawr.

Croeso i **Ona Flindall**, sy'n cymryd lle Tamara fel Cydlynydd Rhaglenni. Wedi graddio mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, bu Ona yn gweithio i Gymdeithas Cenhedloedd Unedig Norwy. Oherwydd ei diddordeb brwd mewn rhyngwladoldeb a photensial pobl ifainc derbyniodd swydd dysgu yn Tsieina yn 2004. Mae Ona yn credu y gallwn ni feithrin dyfodol sy'n llawn parch ac undod trwy gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifainc am y byd a'i bobloedd.

Ymunodd **Jess Lewis** â CEWC-Cymru ym mis Mai 2008 fel Cynorthwy-ydd Swyddfa. Yn ogystal â siarad Cymraeg yn rhugl, astudiodd Jess Almaeneg, Sbaeneg a Ffrangeg at lefel A cyn gweithio yn adran Adnoddau Dynol Barnardo's Cymru. Mae hi wedi dychwelyd yn ddiweddar o'i thaith ar draws Ewrop, Siapan ac America ac yn meddwl am y profiad hwn fel pinacl ei bywyd hyd yma.

ANOGWCH EICH MYFYRWYR I DDADLAU YN NHYMOR YR HYDREF!

Mae'r broses gofrestru bellach wedi dechrau ar gyfer **Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru 2008**. Dyma ein cyfle blynyddol i ddisgyblion i gynnal dadleuon ffurfiol ar faterion cenedlaethol a byd-eang o bwys mewn sefyllfa gystadleuol. Cynhelir y gornestau rhanbarthol ym mis Hydref, a daw'r gornestau gogynderfynol, cynderfynol a'r ornest derfynol ym mis Tachwedd.

Mae croeso i bob ysgol uwchradd a choleg addysg bellach gymryd rhan - ac os nad ydych wedi dadlau o'r blaen, rydym yn eich annog chi i ddod i un o'n **Diwrnodau Hyfforddiant Dadlau**, a gynhelir yng Nghaerdydd ar 22 Medi ac ar 26 Medi yn y Rhyl.

Cychwynnwyd ein pencampwriaeth ddadlau ym 1990, a'r pencampwyr cyntaf oll oedd Ysgol Gyfun Tre-gŵyr, Abertawe. Yr enillwyr y llynedd oedd Ellen Robertson ac Eleanor Francis o Ysgol Pen-coed, Pen-y-bont ar Ogwr. Am fanylion llawn, ac i lawr lwytho ffurflen gofrestru ar gyfer y gweithgareddau eleni, ewch i www.cewc-cymru.org.uk/dadlau.

CEWC-Cymru sy'n gyfrifol hefyd am fynd â thîm cenedlaethol Cymru i **Bencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd**. Mae gan bob ymgeisydd yn ein cystadleuaeth felly gyfle i deithio i Athen ym mis Chwefror 2009 i gynrychioli eu gwlad.

DIGWYDDIADAU DIWEDDAR

Lluniau o ddau o'n digwyddiadau a gynhelid yn ystod Tymor yr Haf: Y Gynhadledd Un Byd yn Nant-y-moel, Pen-y-bont ar Ogwr; a'r Model Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhelid yng nghanolfan addysg y Cynulliad ym Mae Caerdydd.

Dylunio elfen.co.uk

DINASYDDIAETH FYD-EANG AR GWRICWLWM 2008

Daw cwricwlwm cenedlaethol Cymru newydd i rym ar 1 Awst 2008, ac mae'n llawn o gyfleoedd ychwanegol i ddarparu addysg ym maes dinasyddiaeth fyd-eang. Dyma i chi grynodeb i'n cydweithwyr o'r prif newidiadau sy'n berthnasol i waith CEWC-Cymru. Byddwn yn datblygu map mwy manwl o'r cwricwlwm yn ystod y misoedd sydd i ddod.

- Mae cyfleoedd ar gyfer **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)** bellach ar gael trwy fanylebau pwnc. Er enghraifft:
  - *Daearyddiaeth*: gofynnir yn benodol i ddisgyblion i ystyried cyfrifoldebau dinesydd byd-eang.
  - Mae *leithoedd Tramor Modern* yn cynnwys elfen helaethach o Ddealltwriaeth Ddiwylliannau Eraill.

  Ceir rhagor o gymorth gydag ADCDF gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei dogfen arweiniol newydd, *Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer ADCDF yng Nghymru*.

- Cwtogwyd deg 'agwedd' **Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)** i bump yn y Fframwaith ABCh newydd. Dwy o'r rhain yw:
  - *Dinasyddiaeth Weithredol*, sy'n dwyn ynghyd yr 'agwedd Gymunedol' gynt ac agweddau/gwerthoedd sy'n perthyn i amrywiaeth ac ymwneud gwleidyddol.
  - *Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang*, sy'n rhoi maes llafur byd-eang eglurach i ABCh, gan gynnwys meysydd megis cydraddoldeb, globaleiddio a chydweithio rhyngwladol.

- Mae'r **Fframwaith Sgiliau** newydd yn sicrhau bod dwy sgil sy'n berthnasol i'n gwaith bellach yn sail i'r cwricwlwm cyfan:
  - *Sgiliau Meddwl*. Mae gweithgareddau fel ein gwaith Athroniaeth i Blant a'n cynadleddau Model y CU eisoes yn cefnogi gwaith meddwl creadigol a beirniadol y disgyblion. Mae'r Fframwaith Sgiliau yn rhoi mwy o sylw i feysydd pwysig fel holi cwestiynau, cynhyrchu syniadau newydd a gweld gwerth camgymeriadau.
  - *Sgiliau Cyfathrebu*. Mae ein gweithdai a'n gweithgareddau dadlau yn cyd-asio â datblygu sgiliau llafaredd.

- Mae **Cymru, Ewrop a'r Byd** bellach yn thema drawsgwricwlaidd i'w hystyried gan bob dysgwr rhwng 14 a 19 oed – ac nid dim ond y rheiny sy'n astudio ar gyfer y Bac Cymreig.

- Mae'r **Cyfnod Sylfaen** i blant rhwng 3 a 7 mlwydd oed yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y bydd addysgwyr yn annog Datblygiad Personol a Chymdeithasol ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol.

Os nad ydych yn gwbl sicr ynglŷn â'r ffordd i ymateb i rai o'r gofynion hyn, cysylltwch â ni yn cewc@wcia.org.uk. Gallwn ddarparu hyfforddiant mewn swydd ar gyfer ysgolion unigol neu glystyrau lleol, heb sôn am drefnu gweithdai yn yr ystafell ddosbarth i arddangos dulliau addysgu fel Athroniaeth i Blant.

CEWC-CYMRU, Y DEML HEDDWCH, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3AP
FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk

Elusen gof. rhif 1048759